DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

GIG CYMRU
NHS WALES

# Y gwasanaeth anhwylderau cyffredin

**Gwasanaeth fferylliaeth GIG Cymru ar gyfer oedolion a phlant Cymru.**

Cyngor a thriniaeth ar gyfer amrywiol anhwylderau cyffredin heb orfod gwneud apwyntiad i weld meddyg teulu.

HELPWCH NI I'CH HELPU CHI | HELP US HELP YOU

# Beth mae'r gwasanaeth yn ei gynnig?

Os oes gennych anhwylder cyffredin, gallwch ymweld â fferyllfa a gofyn am gyngor gan y fferyllydd, yn ogystal â thriniaeth os oes ei hangen. Efallai y bydd y fferyllydd yn gofyn a hoffech gofrestru ar gyfer y gwasanaeth. Drwy gofrestru gall y fferyllydd roi'r feddyginiaeth sydd ei hangen arnoch yn rhad ac am ddim.

Gall eich fferyllydd eich helpu chi gyda'r mân salwch ac anhwylderau a ganlyn fel rhan o'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin:

- camdreuliad
- rhwymedd
- dolur rhydd
- peils
- clefyd y gwair
- llau pen
- torri dannedd
- brech cewyn
- colig
- brech yr ieir
- edeulyngyr
- llwnc tost/ dolur gwddf
- tarwden y traed
- heintiau ar y llygaid
- wlseri ceg
- dolur annwyd
- acne
- llygaid sych
- dermatitis
- dafadennau
- poen cefn
- llindag y wain
- llindag y geg
- clefyd crafu
- tarwden
- llid rhwbio
- casewin

Os yw'ch fferyllydd yn teimlo y byddai'n fwy priodol i chi weld eich meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall, efallai y bydd yn dweud wrthych am wneud apwyntiad.

# Ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth?

Cewch ddefnyddio'r gwasanaeth os ydych yn byw yng Nghymru ac wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu.

# Sut mae'n gweithio?

- Er bod nifer o wasanaethau ar gael i chi alw heibio i'w cael, efallai y bydd angen ichi archebu ymgynghoriad, yn enwedig os hoffech gael ymgynghoriad fideo/dros y ffôn. Cysylltwch â'ch fferyllfa a chytuno ar amser addas ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin.
- Efallai y bydd angen i chi ddangos rhyw fath o ddogfen adnabod i'r fferyllydd cyn medru defnyddio'r gwasanaeth, ond bydd hynny'n dibynnu a yw'r fferyllydd yn eich adnabod neu beidio.
- Bydd y fferyllydd yn gwirio'r manylion yn erbyn Gwasanaeth Demograffig GIG Cymru er mwyn cadarnhau eich bod wedi cofrestru gyda Meddygfa yng Nghymru.
- Cewch ymgynghori â fferyllydd cymwys, mewn ardal gyfrinachol o fewn y fferyllfa.
- Os bydd eich fferyllydd yn cytuno bod angen meddyginiaeth neu gynnyrch i drin eich symptomau, gall eu rhoi i chi yn rhad ac am ddim fel rhan o'r gwasanaeth hwn.
- Os nad ydych am gofrestru gyda'r gwasanaeth, gall y fferyllydd roi cyngor i chi ond ni fydd modd iddo roi unrhyw feddyginiaeth am ddim.

## Sut fedra i gofrestru?

- Bydd eich fferyllydd yn gofyn am rai manylion, fel eich enw, dyddiad geni a chod post.
- Os nad yw'r fferyllydd yn eich adnabod, bydd gofyn i chi ddangos rhyw fath o ddogfen adnabod er mwyn cadarnhau eich enw, dyddiad geni a chyfeiriad.
- Bydd eich fferyllydd yn egluro'r gwasanaeth, yn gofyn a ydych yn hapus i gofrestru, ac yn rhoi copi o'r daflen hon i chi.

## Oes modd i mi fynd i weld fy meddyg teulu beth bynnag?

- Gallwch wneud apwyntiad i weld eich meddyg teulu os ydych yn teimlo y byddai hynny'n fwy priodol.
- Bydd rhaid i chi fynd at eich Meddyg Teulu:
  - Os yw'r fferyllydd yn awgrymu y dylech wneud hynny, neu
  - Os oes angen meddyginiaeth na ellir ei chael heb bresgripsiwn gan eich Meddyg Teulu.



# Oes modd i mi fynd i fferyllfeydd eraill?

Gallwch ddefnyddio fferyllfeydd eraill i brynu moddion neu gasglu presgripsiynau ond cofiwch:

- Dim ond gydag un fferyllfa gymunedol ar y tro y gallwch gofrestru ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin.
- Os hoffech gael y gwasanaeth drwy fferyllfa gymunedol arall, gallwch wneud hynny, ond bydd angen i chi gofrestru gyda'r fferyllfa newydd.
- Os ydych yn cofrestru gyda fferyllfa newydd, ni fyddwch bellach wedi'ch cofrestru yn y fferyllfa lle roeddech wedi cofrestru'n flaenorol.
- Mae'n fwy diogel i un fferyllfa yn unig gadw cofnod o'r holl feddyginiaeth yr ydych chi'n eu cymryd, er mwyn sicrhau, os oes unrhyw newid i'ch iechyd, bod eich meddyginiaethau yn parhau i fod yn addas i chi.

# Pa wybodaeth fydd yn cael ei chadw amdanaf?

- Bydd y fferyllfa gymunedol lle'r ydych yn cofrestru yn cadw cofnod o'ch enw, cyfeiriad, dyddiad geni, manylion am yr anhwylder sydd gennych ac unrhyw gyngor neu feddyginiaeth a roddwyd.
- Os byddwch yn defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol, bydd manylion ymgynghoriadau blaenorol ar gael i'r fferyllydd yn y fferyllfa lle'r ydych yn gofyn am driniaeth neu gyngor. Gall fod yn fferyllfa wahanol i'r un a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Y bwriad yw

helpu i benderfynu a oes modd i'r fferyllydd eich trin yn ddiogel, neu oes angen i chi weld meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall.

- Bydd manylion ymgynghoriadau blaenorol ar gael i'ch meddyg teulu er mwyn ei helpu i roi'r gofal cywir i chi.
- Gall eich gwybodaeth gael ei defnyddio gan staff GIG Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod y fferyllfa wedi'i thalu'n gywir am y gwasanaethau a ddarparwyd. Bydd eich cofnodion yn cael eu defnyddio ddim ond lle bo'n briodol ac yn angenrheidiol, ac os yn bosib ni fydd unrhyw wybodaeth a allai arwain at eich adnabod yn cael ei defnyddio.
- Os oes gennych unrhyw bryderon neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, trafodwch gyda'ch fferyllydd.
- Er mwyn gweld pam bod GIG Cymru'n casglu gwybodaeth amdanoch a sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei defnyddio, gofynnwch am gopi o'r daflen "Eich gwybodaeth, Eich hawliau: Gwybodaeth amdanoch chi" neu ewch i: **https://111.wales.nhs.uk/aboutus/yourinformation?locale=cy**

# Beth os byddaf yn anfodlon â'r gwasanaeth?

- Dylech siarad gyda'ch fferyllydd i ddechrau
- Os ydych yn anfodlon o hyd, dylech gysylltu â'ch Bwrdd Iechyd Lleol.

OGL © Hawlfraint y Goron Llywodraeth Cymru 2021 WG44065